*222)Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth / Community Council: Cyfarfod Misol / Monthly Meeting, Nos Lun, Medi 18fed, 2023, - 18/09/2023 — 8.00 pm at Tabernacle Chapel Vestry, Pencader.*

---

*Cynghorwyr yn Bresennol /Councillors Present:* M.Griffiths, A.Davies, H.Lewis, S.Mason, R.Thomas, G.Jones.

Ymddiheuriadau / Apologies: Y.Griffiths, D.Davies, V.Davies, C.S.L.Evans

Clerc: Anita Evans Ymwelwyr / Visitors: Neb/None.

1) Cadeiriwyd gan M.Griffiths. Croesawodd bawb, a nodwyd ymddiheuriadau. Darllenwyd llythyr oddi wrth C.C.Mair Jones, yn datgan ei ymddiswyddiad o'r Cyngor, a hynny oherwydd ei bod wedi symud o ardal Pencader. Bydd llythyr o ddiolch yn cael ei anfon, yn diolch iddi am ei gwaith caled ar y Cyngor. Meeting chaired by M.Griffiths who welcomed all and apologies noted. A letter was read from C.C. Mair Jones resigning from the Council as she has moved recently from the area. A letter of thanks will be sent, in appreciation of her hard work as Councillor.

---

2) Datgan diddordeb gan Gynghorwyr/declaration of interest/none.

3) Heddlu: Neb yn bresennol. Derbyniwyd y data misol. The PCSO was not present. Monthly data received.

4) Cofnodion Mis Gorffennaf / July minutes - found to be correct — prop.A.Davies, sec. S.Mason. Bu cyfarfod ar Orffennaf 25ain i dderbyn gwaith oddi wrth y Cyfrifydd cyn ei anfon at Audit Cymru / Councillors met on 25th July to receive accounts from our accountant ready for Audit; passed as correct: A.Davies prop. and S.Mason sec. All agreed. Clerk confirmed delivery of accounts to Wales Audit Office at Penlle'rgaer-31/07/23.

5) Materion y Clerc / Clerk Matters:

a) Cyngor Sir: atebion oddi wrth yr Adran Briffyrdd / Responses from Highways Department:

(i) Anfonwyd llythyr o ddiolch i'r Adran oddi wrth y Cyngor, yn diolch am y gwaith safonol sydd wedi ei wneud ar y ffordd ym Mhencader /the Council has sent a letter thanking the County Council for re: surfacing part of the road in Pencader. The County Council has responded.

ii) Toiledau Pencader: dim diweddariad ond fod y swyddog ddaeth i gwrdd â'r Cynghorwyr mis Mehefin wedi bod i ffwrdd o'i waith yn sâl; dydy'r Cyngor Sir ddim wedi trefnu glanhawyr i wneud y clirio ar ôl gweithwyr; no up-date on Pencader Conveniences — the Officer who met with Councillors in June has been absent from work; no cleaning has been undertaken at the site following the work of electricians, etc.

iii) Cafnau blodau: Farmyard wedi eu chwynnu ddwywaith; Clerc wedi rhoi diolch yn Clecs i'r unigolion sydd wedi dwrhau drwy'r haf; flower troughs — have been weeded twice during the season; Clerk has thanked the individuals who have watered the troughs throughout the summer, in Clecs.

iv) Cofeb yr Hen Ŵr — A. Lewis yn gobeithio dechrau ar y gwaith yn fuan / A.Lewis hopes to start repairs to the Old Man of Pencader's Memorial soon.

v) Defibrillators - rydyn wedi gofyn i unigolyn o Brechfa i gymeryd gofal o'r defibrillators yn ein Plwyf. Mae wedi cytuno ar ôl i'r Cyngor dderbyn — cynigiodd R. Thomas ein bod yn derbyn ei wasanaeth, eiliodd A.Davies ac roedd pawb yn gytûn. Bydd un yn cael ei osod yn Windy Corner, ac un arall yng nghysgodfan bws New Inn.

223) Materion: Diolchwyd i H.Lewis am fynd o gwmpas y Plwyf gyda'r unigolyn. We have approached an individual from Brechfa to take over the maintenance of our defibrillators. R. Thomas proposed that we accept his services, A. Davies seconded and all agreed. Councillors wished to thank H. Lewis for showing him around the Parish. We have defibrillators to place in Windy Corner and New Inn bus stop.

vi) Toolkit i Gynghorau — Derbyniwyd y dair adran gyntaf fel arolwg trylwyr o sefyllfa'r Cyngor Cymuned a nodwyd y materion sydd angen gweithredu arnynt. The first three sections were accepted as a detailed positional statement and action points were noted. A.Davies proposed and H. Lewis seconded.

vii) Gwaith i'w wneud ar <u>Fynwent Pencader</u>: torri'r coed o gwmpas yr Ardd Goffa a phlannu ffawydd yn eu lle — hysbysebu yn syth/work to be carried out at Pencader Cemetery — will be advertised immediately — taking down the trees around the Remembrance Garden and replacing with beech. Hefyd angen gwella darn gwaelod arwynebedd y llwybr — bydd y Clerc yn gofyn am brisiau/The lower part of the Cemetery path is crumbling and needs resurfacing. The Clerk will request quotes.

viii) Mae dogfennau claddu newydd ar gael nawr i'w rhoi i ymgymerwyr angladdau cyn cael mynediad i'n Mynwentydd. Diolch i H. Lewis am ddod â chopiau. Cynigiodd R. Thomas ein bod yn eu derbyn, eiliodd A. Davies ac roedd pawb yn gytûn. There are new burial regulations which Funeral Directors have to discuss with families, and fill in information, prior to entering Cemeteries. H. Lewis provided copies of the forms. She was thanked. R. Thomas proposed that the Council utilizes these forms, A. Davies seconded and all agreed.

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

6) <u>Cyfrifon / Finances:</u>

Derbyniwyd dogfennau 221(A) a 221(b) / financial statements were received as a true record — A. Davies proposed and R. Thomas seconded. Thanks to H. Lewis for producing the documents. Bills to pay — cyflogau/wages August: £2,121.26; Kangaloos(August): £120.00; Clerk's costs: £40.49; Clerk: printer ink for July/Aug, lever arch files and printer paper: £22.95; Tabernacl - rent: £165.00. I'w talu/to be paid: prop. G. Jones., sec. S. Mason.

a) Adolygu Cyflogau / Pay Review. Trafodwyd hyn ar ddiwedd y cyfarfod wedi i'r Clerc adael. / The Clerk left the meeting prior to this matter being discussed at the end of the meeting.

b) Clerc ar hanner trosglwyddo manylion y Banc o HSBC i Lloyd's / bank transfer ongoing from HSBC to Lloyd's Bank.

c) Lwfans y Cynghorwyr—os na fydd Cynghorwr yn dymuno derbyn lwfans, rhaid ysgrifennu at y Clerc / Councillors' Allowance: individual members are required to advise the Clerk in writing should they not wish to claim the allowance.

ch) Îs-bwyllgor Cyllid i gwrdd nos Iau - 28/09/23 - Meeting of Finance Sub-Committee.

---------------------------------------------------------------------------------

7) Cynllunio / Planning: ceisiadau wedi eu e-bostio i'r Cynghorwyr cyn y dyddiadau cau / applications forwarded to Councillors before closing dates.

-------------------------------------------------------------------------------------

8) Gohebiaeth / Correspondence:

a) Polisi Cymorth Ariannol: ar waith gyda'n Cadeirydd / Policy for Financial Assistance — Chairman reviewing.

b) Cynllun yr Iaith Gymraeg: Y Cyngor wedi mabwysiadu templed oddi wrth Un Llais Cymru ym Mis Chwefror 2022. Bwriedir ei adolygu yng nghyfarfod Mis Hydref. Welsh Language Scheme — the Council had previously adopted an exemplar document provided by One Voice Wales in February 2022. This will be reviewed at the next meeting in October.

c) NACRO — llythyr yn hybu Gwaith y mudiad gyda thrigolion Sir Gâr / a letter promoting the work of NACRO in supporting citizens of Carmarthenshire.

ch) Cynhadledd 2023 / One Voice Wales Annual Conference at Builth Wells.

d) Ffioedd Audit - wedi ei e-bostio i Gynghorwyr / Audit fees e-mailed to Councillors.

dd) RAAC—Cynulliad yn casglu gwybodaeth – e-bostiwyd / Welsh Govt. gathering information – e- mailed.

e) Bwrdd Iechyd Hywel Dda — ymgynghoriad / Hywel Dda Health Board—consultation—e mailed.

f) Clerc wedi derbyn neges ffôn bygythiol — Heddlu yn delio / Clerk has received a threatening phone call to the Council — Police are dealing.

ff) Trigolion mewn un ardal ym Mhencader wedi hysbysu'r Clerc fod problem llygod yn yr ardal — Cyngor Sir yn delio / County Council are dealing with vermin problems in one area of Pencader.

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

9) Unrhyw Fater Arall — Gwybodaeth gan Cynghorwyr / A.O.B. - Information from Councillors:

a) H.Lewis - Gall y Cyngor wneud cyfarfodydd yn rhithiol yn y dyfodol / our monthly meetings can now be digital. Wedi cael cais am sedd tu allan i Gapel Tabernacl / Request received for a bench to be placed outside Tabernacle Chapel Pencader.

b) A.Davies - wedi cael cwynion am goeden yn tyfu dros arosfan bws Llanfihangel / coeden tu allan i Pwll Dŵr yn achosi diffyg gwelediad /ydy hi'n bosib cael sebra ar y glustog cyflymder tu allan i Ysgol Cae'r Felin?Has received requests from Parishoners: tree overhanging the bus stop in Llanfihangel; tree on Pwll Dŵr forecourt hampering drivers' visibility; is it possible to have a zebra crossing painted on the speed cushion outside Cae'r Felin School? Hewl fach ochr draw Glanawmor Uchaf allan i Faescader — nifer o

gerbydau yn gyrru ar hon er taw llwybr cerdded yw hi. Angen arwydd ‘Dim Mynediad’ ar y ffordd. Bydd yr Heddlu yn cael gwybod / cars travel up the path opposite Glanawmor Uchaf towards Maes Cader. This is a footpath. We will request a ‘No Through Road’ sign, and inform the PCSO.

c) G.Jones: mae’r gwaith wedi dechrau ar y ffordd heibio Tŷ Poeth / road improvements have started past Tŷ Poeth.

d) Clerc yn gofyn os ydy’r trefniadau arferol yn bodoli ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio eleni? / Do Councillors wish this year’s Remembrance Service to follow the same pattern this year?

Gorffennwyd / Meeting closed: 10.00 p.m.

DRAFT